ATODLEN 3

Rheoli a dileu TSE mewn anifeiliaid buchol

**Adnabod a chyfyngu ar epil a chohortau**

**4.**—(1) Yn unol ag Erthygl 13(2) o Reoliad TSE y Gymuned fel y'i darllenir ynghyd ag Erthygl 2(1)(b) a (2) o Benderfyniad y Comisiwn 2007/411/EC, os yw—

(a) arolygydd milfeddygol yn amau bod anifail buchol wedi ei effeithio gan TSE;

(b) monitro carcasau o dan Atodlen 2 neu o dan Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned yn cadarnhau bod anifail dan amheuaeth o fod wedi'i effeithio gan TSE; neu

(c) yr awdurdod cymwys mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig neu Aelod-wladwriaeth arall yn hysbysu Gweinidogion Cymru bod anifail buchol dan amheuaeth o fod wedi ei effeithio gan TSE,

rhaid i arolygydd adnabod —

(a) (os yw'r anifail a amheuir yn fenyw) holl epil yr anifail a anwyd o fewn y ddwy flynedd cyn cychwyniad clinigol y clefyd neu ar ôl hynny; a

(b) pob un o'i gohortau buchol a anwyd ar neu ar ôl 1 Awst 1996,

ac at y dibenion hyn dyddiad geni anifail yw'r un a ddangosir ar ei basbort gwartheg.

(2) Rhaid i arolygydd gyflwyno hysbysiadau yn gwahardd symud yr anifeiliaid hynny o'r daliad lle y'u cedwir neu lle y mae'r arolygydd yn amau y'u cedwir (pa un ai'r un daliad yw hwnnw a'r daliad lle cedwir yr anifail sydd dan amheuaeth ai peidio) a thynnu yn ôl eu pasbortau gwartheg.

(3) Os na ellir adnabod yr anifeiliaid yn is-baragraff (1) ar unwaith, rhaid i arolygydd wahardd symud pob anifail buchol o'r daliad hyd nes gellir eu hadnabod.

(4) Ni chaniateir symud anifeiliaid sydd dan gyfyngiadau ac eithrio yn unol â rheoliad 16.